Energy Local

# Rheolwr Gweithrediadau a Datblygu Busnes

# Swydd Wag

**3-4 diwrnod yr wythnos, yn gweithio o gartref**

£40,000 - £46,000 cyfwerth ag amser llawn

---

## Cyflwyniad

"Mae Ynni Lleol yn fenter gymdeithasol sy'n trawsnewid y farchnad drydan ar gyfer cymunedau lleol a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Ein cenhadaeth yw cefnogi sefydlu miloedd o Glybiau Ynni Lleol (ELCs) lleol, dielw. Mae'r Clybiau'n galluogi ynni adnewyddadwy lleol i gael ei ddefnyddio'n lleol, er budd defnyddwyr, cymunedau a chynhyrchwyr ynni adnewyddadwy lleol; gan adeiladu system drydan leol well."

Rydym yn dîm bach sy'n datblygu model busnes Ynni Lleol ochr yn ochr â sefydliadau ynni cymunedol. Rydym bellach wedi cyrraedd y cam lle mae angen inni ehangu'r model busnes er mwyn datblygu clystyrau o Glybiau Ynni Lleol a'r rhwydwaith cymorth cysylltiedig.

Mae Ynni Lleol yn datblygu mewn amgylchedd lle mae'r farchnad ynni yn newid ac mae angen diogelwch rheoleiddiol ar systemau carbon isel sy'n eiddo i gymunedau.

## Trosolwg o'r Tasgau

**Gweithrediadau**

Byddwch yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau ac aelodau eraill o'r tîm ar weithrediadau a strategaeth y busnes. Byddwch yn cefnogi gwelliannau i effeithlonrwydd ac yn datblygu systemau i alluogi Ynni Lleol i ehangu. Byddwch

yn cefnogi aelodau'r tîm, gan gynnwys gyda rheoli datblygiad clybiau a chyfathrebu.

Byddwch yn rheoli staff yn uniongyrchol, gan bennu amcanion a monitro datblygiad staff.

Byddwch yn dysgu am bob agwedd ar y busnes ac yn darparu hyfforddiant i Glybiau Ynni Lleol sy'n datblygu.

**Datblygu busnes**

Byddwch yn cefnogi prosiectau arloesi newydd, ac yn nodi ac yn datblygu cyfleoedd busnes newydd.

Byddwch yn goruchwylio cyfathrebu, gan gynnwys marchnata, cysylltiadau cyhoeddus ac ymgyrchoedd lobïo.

Byddwch yn goruchwylio diweddariadau i'r wefan ac yn nodi lle mae angen newidiadau, gan reoli aelodau'r tîm i wella a diweddaru'r wefan a phorth Ynni Lleol lle bo angen.

## Gofynion eraill

Bydd gofyn ichi gefnogi'r Cyfarwyddwr Technegol yn ôl yr angen, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o ysgrifennu ceisiadau, deall fframweithiau rheoleiddio, datblygu perthnasoedd â chyflenwyr trwyddedig, gweithio ar brosiectau arloesi a chynorthwyo gyda dyletswyddau gweinyddol pan fo angen.

Rhaid ichi fod yn hyfedr wrth ddefnyddio Microsoft Office a meddalwedd Google ar gyfer cadw cofnodion, a chreu a diweddaru dogfennau.

Byddwch yn gymwys i weithio o fewn fframwaith rheoli prosiectau, gan ddarparu diweddariadau rheolaidd a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli.

Bydd angen ichi gadw cofnodion cywir a chyfredol.

Bydd gofyn ichi deithio i gyfarfodydd tîm wyneb yn wyneb unwaith bob tri mis ac ar adegau eraill o bryd i'w gilydd. Bydd gofyn ichi hefyd deithio i ddarparu sesiynau hyfforddi hyd at unwaith y mis. Mae'r rhain yn para deuddydd, felly bydd angen ichi allu aros dros nos os ydych yn teithio pellter. Rydym yn gofyn i staff deithio i ddigwyddiadau gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo modd. Bydd yr holl gostau teithio a llety yn cael eu had-dalu.

## Sgiliau ac arbenigedd

**Hanfodol**

- Sgiliau dadansoddi a strategol
- Y gallu i weld y darlun ehangach a deall sut i gyflawni nodau busnes
- Menter gref iawn
- Profiad o reoli pobl
- Y gallu i ddysgu’n gyflym; bydd angen ichi ddeall hanfodion pob rhan o’r busnes
- Sgiliau TG da a’r gallu i ymgyfarwyddo â meddalwedd gwahanol yn gyflym
- Sgiliau trefnu da
- Profiad mewn rolau sy’n ymwneud â chwsmeriaid
- Hyder i ddarparu sesiynau hyfforddi, gan gynnwys agweddau technegol, i hyd at 12 o gyfranogwyr
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol ag aelodau o’r gymuned a gweithwyr proffesiynol
- Diddordeb mewn ynni cymunedol a/neu weithio gyda chymunedau
- Sgiliau trefnu a blaenoriaethu rhagorol
- Hunan-gymhelliant
- Gweithio mewn tîm

**Dymunol**

- Addysg hyd at lefel gradd neu uwch
- Gwybodaeth am y sector ynni neu ddiwydiant a reoleiddir a/neu brofiad o weithio ynddo
- Profiad o ddatblygu busnes
- Profiad o weithio ym maes gweithrediadau a/neu strategaeth
- Profiad o weithio mewn rôl dechnegol/ddadansoddol
- Profiad o weithio gyda chymunedau
- Yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg

# Gofynion eraill

Rhaid ichi fod yn barod i:

- Weithio’n hyderus o bell ac ar eich pen eich hun
- Deithio pan fo angen
- Gweithio o fewn fframwaith rheoli prosiectau, darparu diweddariadau rheolaidd a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd rheoli
- Adrodd ar gynnydd i’r Cyfarwyddwyr Technegol a Gweithrediadau bob wythnos a chymryd rhan mewn galwadau rheoli

- Cefnogi cydweithwyr ar brosiectau a thasgau busnes eraill yn ôl yr angen
- Darparu eich gliniadur a'ch ffôn symudol eich hun

## Ystod Cyflog

£40,000 - £46,000 cyfwerth ag amser llawn, pro rata yn dibynnu ar brofiad, ynghyd â buddion. Rydym yn disgwyl i'r rôl hon fod yn 3-4 diwrnod yr wythnos.

Anogir gweithio hyblyg

## Dyddiad Cau Cais

10/10/2026

## Cyswllt

Dylai'r rhai sydd â diddordeb gysylltu ag un o'r cyfeiriadau e-bost isod gyda CV a manylion profiad perthnasol. Pwysleisiwch eich sgiliau a'ch profiad priodol.

| | |
|---|---|
| Mary Gillie | mary@energylocal.org.uk |
| Amy Charnley-Parry | amy@energylocal.org.uk |

I gael sgwrs anffurfiol neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch Mary Gillie ar 07757 900408.